WHC (2016) 049

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ionawr 2017

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: POLISI

Teitl:

CANLLAWIAU I GYMRU GYFAN AR UWCHGYFEIRIO GOFAL CRITIGOL ER MWYN RHEOLI CYNNYDD MAWR HEB EI GYNLLUNIO YN Y GALW

Dyddiad Adolygu

Bob blwyddyn, neu yn ôl y gofyn

I'w Gweithredu gan:

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau

Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith

Anfonir gan:

Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol /Cyfarwyddwr Meddygol

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Caroline Lewis, Y Gangen Cyflyrau Iechyd Difrifol, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Ffôn: 02920 823953 E-bost: majorhealthconditionspolicyteam@wales.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig: gweler yr hyperddolenni

Crynodeb

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd hwn i Gymru yw tynnu sylw at y Canllawiau ar Uwchgyfeirio Gofal Critigol i Gymru Gyfan sydd wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddiwygiedig.

2. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r holl fersiynau blaenorol o ganllawiau uwchgyfeirio a chynllunio brys ar gyfer gwasanaethau gofal critigol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu

3. Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, lle y bo'n briodol, gydweithio â'r rhwydwaith gofal critigol a thrawma, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG eraill yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio gofal critigol yn bodloni gofynion y canllawiau hyn.

4. Mae angen i bob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG, lle y bo'n briodol, sicrhau eu hunain fod ganddynt gynlluniau ar waith i ymateb yn gyflym er mwyn rheoli cynnydd heb ei gynllunio neu gynnydd parhaus yn y galw am ofal critigol, i oedolion, plant a babanod newydd-anedig.

5. Yn benodol, mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo gynllun cadarn ar waith i ddadebru/sefydlogi plant difrifol wael a lle y bo angen, ddarparu gofal critigol pediatrig parhaus tra'n aros i'r gwasanaeth cludo arbenigol gyrraedd, neu pan fydd problemau o ran adnoddau yn golygu nad oes gwely ar gael mewn Uned Gofal Dwys Pediatrig am gyfnod estynedig.

Cefndir

6. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn gyntaf yn ystod y ffliw pandemig yn 2009 a ffliw'r gaeaf yn 2010, a chyhoeddwyd canllawiau dros dro wedi'u diweddaru ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r canllawiau yn nodi'r prif gamau gweithredu i lywio'r broses o ddatblygu adnoddau pan fo ymchwydd er mwyn rheoli cynnydd heb ei gynllunio yn y galw am ofal critigol.

Canllawiau Uwchgyfeirio Gofal Critigol i Gymru Gyfan

7. Mae adegau pan fydd gwasanaethau gofal critigol o dan bwysau mawr oherwydd digwyddiad mawr, achosion o glefyd heintus neu fath arall o gynnydd parhaus yn y galw, ac mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut i ymateb ar adegau o'r fath er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl a'r un gofal i bawb.

8. Mae problemau o ran adnoddau ym maes gofal critigol yng Nghymru yn golygu bod gwasanaethau yn aml o dan bwysau yng Nghymru. Dylai fod gan bob bwrdd iechyd drefniadau ar waith i ymdrin yn briodol â'r problemau hyn o ran adnoddau a dylai'r rhain gael eu rheoli ar wahân i'r trefniadau uwchgyfeirio.

9. Mae'r Canllawiau ar Uwchgyfeirio Gofal Critigol i Gymru Gyfan ar ei ffurf ddiwygiedig yn nodi'r gofynion ar sefydliadau'r GIG i ddatblygu'r gallu pan

fo ymchwydd i reoli cynnydd heb ei gynllunio yn y galw am ofal critigol. Efallai y bydd angen uwchgyfeirio i ymateb i ymchwydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol yn y galw dros gyfnod estynedig, digwyddiad mawr neu achos brys, a rheoli'r broses adfer.

http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/delivery-plan/background/?lang=cy

10. Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â chynlluniau uwchgyfeirio lleol, cynlluniau rhanbarthol/rhwydwaith a chanllawiau cenedlaethol eraill megis Canllawiau Craidd Cynllunio Brys GIG Cymru a Fframwaith Cymru ar gyfer Rheoli Achosion o Glefydau Heintus Difrifol.

11. Nod y canllawiau yw:

    a) atal achosion o farwolaeth ac afiachedd am nad yw cleifion y mae angen gofal critigol arnynt yn cael lefel briodol o ofal/cymorth i'r organau mewn pryd;
    b) manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau yn y system gofal critigol mewn amrywiaeth o senarios drwy ddull uwchgyfeirio a daduwchgyfeirio cydgysylltiedig ar draws ardaloedd daearyddol;
    c) osgoi *brysbennu yn ôl adnoddau* (yn hytrach na *brysbennu yn ôl angen clinigol*) nes bod pob opsiwn uwchgyfeirio posibl arall wedi cael ei ystyried.

12. Mae'n rhaid i bob ysbyty acíwt/bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG, lle y bo'n briodol, ddangos yn glir fod eu trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio gofal critigol yn bodloni gofynion y canllawiau hyn.

13. Mae angen i bob bwrdd iechyd, Ymddiriedolaeth y GIG (lle y bo'n briodol) a phob rhwydwaith gofal critigol a thrawma sicrhau eu hunain bod ganddynt gynlluniau ar waith i ymateb yn gyflym i'r fath alw am wasanaethau. Mae angen i'r cynlluniau hynny ystyried y canllawiau hyn a'r canllawiau ar ddigwyddiadau mawr, a chynnwys cynlluniau parhad busnes.

14. Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Caroline Lewis, Uwch Reolwr Polisi – Cyflyrau Iechyd Difrifol ar 029 20823953 neu e-bost: majorhealthconditionspolicyteam@wales.gsi.gov.uk.

I'w dosbarthu i:

Ysgrifenyddion Byrddau, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifenyddion y Byrddau
Rheolwr Gyfarwyddwr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru
Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans
Aelodau o'r Grŵp Gweithredu Gofal Critigol

Cyfarwyddwyr Meddygol a Thimau Gofal Critigol:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Llywodraeth Cymru
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Prif Swyddog Meddygol
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Digidol, Newid ac Arloesi
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflyrau Iechyd Difrifol
Penaethiaid Gofal Brys a Gofal Heb ei Drefnu